# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig*

### 13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

(1) Pan fo [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen drwy'r post i berson arall ("B"), mae A yn cyflwyno'r ddogfen os yw A yn cyfeirio'n briodol lythyr sy'n cynnwys y ddogfen, yn talu ymlaen llaw am ei bostio, ac yn ei bostio at B.

(2) Pan fo [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen i berson arall ("B") yn electronig, mae A yn cyflwyno'r ddogfen—

(a) os yw A yn cyfeirio'n briodol gyfathrebiad electronig sy'n ffurfio'r ddogfen neu'n cynnwys y ddogfen, neu y mae'r ddogfen ynghlwm wrtho, ac yn ei anfon at B, a

(b) os yw'r ddogfen yn cael ei hanfon ar ffurf electronig y gall B ei chyrchu a'i chadw.

(3) Mae'r adran hon yn gymwys pa un a yw'r Ddeddf [F2]... neu'r [[F3]offeryn] yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu unrhyw ymadrodd arall (megis "anfon" neu "rhoi") i gyfeirio at gyflwyno'r ddogfen.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**F2** Gair yn a. 13(3) wedi ei hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(3)(a)(4)(a)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 13. (See end of Document for details)*

**F3** Gair yn a. 13(3) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(3)(b)(4)(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 13.